

## SCHEDULE 5

### EXPLANATORY INFORMATION FOR SUPPLY WITH RATE DEMAND NOTICES

#### PART II

The form of words set out below is prescribed for the purposes of regulations 18 and 19—

##### **NODIADAU ESBONIADOL**

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio rhai o'r termau a allai gael eu defnyddio ar ffurflen hawlio trethi annomestig ac yn y wybodaeth ategol. Gellir cael gwybodaeth bellach am rwymedigaeth i dalu trethi annomestig oddi wrth yr awdurdodau sy'n eu codi.

Gwerth trethiannol: Pennir hwn gan Swyddog Prasio Cyllid y Wlad drwy gyfeirio at amcangyfrif y Swyddog o'r rhent blynyddol, yn ôl gwerthoedd 1 Ebrill 1988, y gellid ei godi wrth osod yr eiddo ar y farchnad agored. Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, ymwneud â'r rhan annomestig yn unig y bydd y gwerth trethiannol. Os bydd i'r trethdalwr anghytuno â'r gwerth, gall gynnig i'r Swyddog Prasio fod y gwerth yn cael ei newid, a hynny ar unrhyw adeg rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 1990. Ar ôl y dyddiad hwnnw, dim ond o dan rai amgylchiadau y gall y trethdalwr wneud cynnig i newid y gwerth. Ceir gwybodaeth bellach am hyn o swyddfa brisio leol Prisiwr y Dosbarth. (Os ceir apêl, gellir symud gwerthoedd i fyny neu i lawr.)

Rhestr drethu leol: Yn hon ceir cyfeiriad, disgrifiad a gwerth trethiannol pob eiddo annomestig y telir trethi arno i awdurdod sy'n codi trethi (cyngor dosbarth). Cedwir copïau mewn swyddfeydd prasio a chan yr awdurdod sy'n codi'r trethi. Maent yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio.

Lluosydd trethu annomestig cenedlaethol: Dyma'r gyfradd yn y bunt y lluosir y gwerth trethiannol gyda hi i roi bil trethi blynyddol yr eiddo. Pennir y lluosydd gan y Llywodraeth, a'r un yw'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan.

Trefniadau dros dro: Bydd trefniadau dros dro ar waith i gyflwyno'r system newydd o drethi annomestig yn raddol, fel a ganlyn:

##### **Eiddo â biliau trethi uwch**

Fel rheol ni fydd trethdalwr yn wynebu cynnydd blynyddol yn y trethi sydd mewn termau real yn fwy na 15% ar eiddo bach neu 20% ar unrhyw eiddo arall. Eiddo bach yw eiddo gyda gwerth trethiannol o lai na £10,000 ar 1 Ebrill 1990. I benderfynu a yw'r trefniadau dros dro yn gymwys, fe gymherir y bil trethi newydd â bil trethi 1989–90 (a gyfrifir yn achos y rhan fwyaf o eiddo, drwy luosi'r gyfradd yn y bunt ar gyfer y dreth gyffredinol gyda gwerth trethiannol yr eiddo ar 15 Chwefror 1989). Lle bo'r bil trethi a seilir ar werth trethiannol 1990 mwy na 15% yn achos eiddo bach neu 20% yn achos eiddo arall yn uwch mewn termau real na bil trethi 1989–90 (a bennir trwy gyfeirio at newidiadau yn y mynegai prisiau adwerthu), caiff bil 1990–91 ei gyfyngu mewn termau real i'r canrannau hynny o gynnydd.

##### **Eiddo â biliau trethi is**

Fel rheol ni fydd rhwymedigaeth trethdalwr yn gostwng mewn termau real mwy na 15.5% yn achos eiddo bach neu 10.5% yn achos eiddo mawr. I benderfynu a yw'r trefniadau dros dro yn gymwys, fe gymherir y bil trethi newydd â bil 1989–90 (a gyfrifir fel y disgrifiwyd uchod ar gyfer eiddo â biliau trethi uwch). Lle bo'r bil trethi a seiliwyd ar werth trethiannol 1990 llai na 15.5% yn achos eiddo bach, neu 10.5% yn achos eiddo mawr yn is mewn termau real na bil trethi 1989/90, caiff y gostyngiad, o'i gymharu â bil trethi 1989/90, ei gyfyngu i'r ganran briodol.

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

Dangosir yn yr hysbiad hawlio a yw'r trefniadau dros dro yn gymwys i eiddo. Yn achos eiddo â biliau trethi uwch, bydd y trefniadau hyn yn peidio â bod yn gymwys os ceir newid yn naliadaeth yr eiddo, ac nid ydynt yn gymwys i eiddo sydd â gwerth trethiannol o lai na £500 ar 1 Ebrill 1990 (oni bai mai hawliau hysbysebu yw'r eiddo).

Trethu eiddo di-ddeiliad: Gall perchnogion eiddo annomestig sydd heb ddeiliad fod yn agored i dalu trethi eiddo gwag, a godir yn ôl 50% o'r rhwymedigaeth arferol. Bydd y rhwymedigaeth yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am dri mis. Mae rhai mathau o eiddo, er enghraifft warysau a ffatrïoedd yn rhydd rhag trethi eiddo gwag.

Rhyddhad elusennol a dewisol: Mae gan elusennau hawl i gael rhyddhad rhag trethi ar unrhyw eiddo annomestig a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion elusennol. Rhoir rhyddhad yn ôl 80% o'r bil trethi llawn neu o'r bil dros dro lle bo'r trefniadau dros dro yn gymwys. Mae gan yr awdurdodau sy'n codi'r trethi ddisgresiwn i beidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r 20% sy'n weddill o fil elusen ar eiddo o'r fath a gall roi rhyddhad hefyd mewn perthynas ag eiddo a ddelir gan gyrff arbennig sydd heb gael eu sefydlu neu eu rhedeg er mwyn gwneud elw.